**POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

**Datganiad Cyffredinol**

Mae hwn yn nodi ymrwymiad y cyngor i:

- Ddarparu rheolaeth ddigonol o'r risgiau iechyd a diogelwch sy'n deillio o'n gweithgareddau gan gynnwys darparu amgylchedd waith ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol sy'n ofynnol yn rhinwedd Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Cynnal asesiadau risg rheolaidd ar gyfer yr holl weithgareddau a safleoedd ac a welir yn y ddogfen Asesiad Risg.

**2. Cyfrifoldebau**

- **Y** Cynghorwyr fydd yn gyfrifol am y polisi.
- Y Cyng. Lynford Thomas fydd yn gyfrifol am baratoi'r ddogfen Asesiad Risg
- Contractwyr/Gwirfoddolwyr**:** Rhaid iddynt ddilyn polisïau'r cyngor.

**3. Trefniadau Penodol**

Mae'r polisi yn manylu ar sut y bydd risgiau yn cael eu rheoli:

- **Asesiadau Risg:** Ar gyfer neuaddau pentref, tir y cyngor, a digwyddiadau cymunedol.
- **Damweiniau:** Gweithdrefn ar gyfer cofnodi anafiadau neu ddigwyddiadau a allai ddigwydd. Atal damweiniau a salwch sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol a chynnal amodau diogel ac iach ar gyfer cynnal busnes y Cyngor a'r cyfleusterau cyhoeddus y mae'n eu darparu
- **Hyfforddiant:** Sicrhau bod aelodau a staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.
- **Offer:** Darparu a chynnal a chadw offer yn ddiogel.